Mentor Academaidd Lefel 3

Cyfeirnod y Swydd: YYGC00260W1RDE
Lleoliad: Ysgol Glan Clwyd
Cyflog: Gradd 5 (£16,379 - £18,084)
Oriau: 32.5 awr yr wythnos (Tymor Ysgol yn unig + 5 HMS)
Math o gytundeb: Swydd Tymor Penodol 01/11/2021 – 31/08/2022
Swydd Allanol

Mae Ysgol Glan Clwyd yn edrych am fentor academaidd yn yr ysgol gan weithio'n uniongyrchol gyda myfyrwyr Blynyddoedd 11, 12 a 13 er mwyn hyrwyddo eu dysgu a'u cynorthwyo i baratoi at lwyddiant yn arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch haf 2022. O ganlyniad i gyfnod clo coronafeirws mae'r ysgol yn awyddus i gynnig pob cymorth i'n myfyrwyr i sicrhau eu bod yn llwyddo y flwyddyn nesaf – ac fe welwn y penodiadau hyn fel rhan allweddol yn y strategaeth honno.

Os ydych:

- yn chwilio am gyflogaeth a her gyffrous am 12 mis
- wedi profi llwyddiant academaidd eich hun ac yn awyddus i gynorthwyo eraill i wneud yr un modd
- â'r gallu i wrando a chymell eraill i lwyddo, gan gyfathrebu'n effeithiol
- â'r meddylfryd i oresgyn heriau
- â gwybodaeth gyfredol am bwysau gwaith arholiadau a llwybr llwyddiant arholiadau allanol
- ag empathi gyda dysgwyr ifanc o bob gallu, ac yn meddu ar agwedd amyneddgar a chadarnhaol

A'i hon ydy'r swydd i chi!

Rydym yn chwilio am amrediad o sgiliau ac arbenigeddau fel fod y tîm mentoriaid academaidd gyda'i gilydd yn gallu cynorthwyo'r myfyrwyr ar draws yr ystod o bynciau.
Dyma gyfle cyffrous i berson egnïol gael profiad o weithio'n uniongyrchol gyda dysgwyr arholiadau allanol a gwneud hynny fel rhan o dîm teuluol, gweithgar a chyffrous Ysgol Glan Clwyd – a'r cwbl wrth gwrs o fewn awyrgylch gartrefol Gymraeg yr ysgol.
Dewch ac ymunwch â thîm Ysgol Glan Clwyd.

Bydd y penodiad yn amodol ar Wiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.

Os hoffech fwy o fanylion am y swydd uchod, gellir cysylltu a'r ysgol drwy e bostio swyddi@ysgolglanclwyd.co.uk.

Dyddiad Cau: Dydd Iau 07/10/21

Os oes gennych ddiddordeb yn y swydd hon, gwnewch gais ar-lein trwy gwefan Sir Ddinbych www.sirddinbych.gov.uk/. Am ddulliau eraill o wneud cais, cysylltwch â Rhian Davies ar 01745 582611 neu drwy e-bost swyddi@ysgolglanclwyd.co.uk
Rhaid i ymgeiswyr gwblhau ein ffurflen gais i gael ei ystyried. Mae'n ddrwg gennym nad ydym yn gallu ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau, dylech gymryd yn ganiataol nad ydych wedi cyrraedd y rhestr fer am gyfweliad.

This Advert is for Academic Mentors at Ysgol Glan Clwyd for which the ability to speak Welsh is an essential requirement.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i Safonau Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynwyd yn Saesneg.